



Drafft - Dim Statws

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

Cyngor Bro Morgannwg

2020 - 2021

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Saesneg.
Fe welwch fersiwn Saesneg ar ein gwefan.**

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Cefndir.....	1
Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.....	3
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol	5
Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb.....	5
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol	23
Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	23
Hyfforddiant Cydraddoldeb	24
Caffael.....	24
Cynllun Hyderus o ran Anabledd	25
Pencampwr Amrywiaeth Stonewall.....	26
Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth	27
Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt)	28
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro	29
Datblygu'r Celfyddydau.....	31
Gwasanaethau Hamdden	35
Gwerthuso Swyddi.....	37
Cynllun y Gweithlu	38
Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog.	39
I gael mwy o wybodaeth	40

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a materion cydraddoldeb eraill bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthyfch am ein gwaith cydraddoldeb rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021.

Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (a elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthyfch sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthyfch am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024](#).

Cytunwyd ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2020. Mae'n datblygu a chynyddu ar ein gwaith o'n cynlluniau blaenorol yn 2012 a 2016. Roedd nifer o bethau roedd yn rhaid i ni wneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychom ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa grwpiau gwarchoddedig oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallen ni weithio arny'n nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychom ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnom ni ddiwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.
- Fe siaradon ni â phobl ynglyn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Gwnaethom ymgynghori â phobl eto tua diwedd 2015 i'n helpu i benderfynu sut i ddiweddarau'r cynllun ar gyfer 2016 ac yna eto ar gyfer ein Cynllun 2020 - 2024. Defnyddiwyd adborth o ymgysylltu ac ymgynghori i ddatblygu cyfres newydd o amcanion cydraddoldeb sy'n rhoi ffocws mwy cytbwys i ni rhwng canlyniadau mewnol ac allanol. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil fwy diweddar fel 'A yw Cymru'n Decach? 2018' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau â'n hamcanion llesiant corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae Arweinydd y Cyngor yn arwain ar faterion cydraddoldeb. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Mae dull corfforaethol ar gael ar gyfer gwneud hyn fel y gall Gwasanaethau gasglu data ar grwpiau gwarchodedig mewn ffordd gyson. Rydym yn annog gwasanaethau i wella'r ffordd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gynllunio eu gwaith i ddiwallu anghenion pobl yn well.

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn adrodd ar y gwasanaethau a ganlyn:

- Datrysiadau Tai
- Tai - Cefnogi Pobl
- Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
- Dysgu a Sgiliau - Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles
- Dysgu a Sgiliau - Grwpiau Sy'n Agored i Niwed
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

- Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Gwasanaethau Cymdeithasol
- Diogelwch Cymunedol
- Cymunedau Gwledig Creadigol
- Cymunedau am Waith y Fro
- Twristiaeth a Digwyddiadau
- Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl
- Cronfa Grant Cymunedau Cryf
- Caffael Corfforaethol
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned - Cymraeg i Oedolion
- Cyfathrebu
- Cwynion Corfforaethol - Cysylltiadau Cwsmeriaid

Nid oedd rhai Gwasanaethau'n gallu adrodd gan nad oedd yn bosibl casglu gwybodaeth yn ystod y pandemig oherwydd bod gwasanaethau'n cau.

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a
- sut mae gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn y wybodaeth a chymryd camau priodol.

I egluro pam fod angen i reolwyr gasglu'r wybodaeth, rydym yn defnyddio canllawiau gan Stonewall. Gallwch weld y canllawiau yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen a ddefnyddiwyd gennym i gasglu gwybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth am gydraddoldeb y mae Gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#).

Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- nad oedd defnyddwyr am gwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon wrth wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn am hyn yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychon ni ar yr adroddiadau 'A yw Cymru'n Deg', a 'Nid dim ond

Ystadegyn Arall'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.

- Fe edrychon ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.
- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

Er mwyn adolygu ein hamcanion, edrychwyd ar ymchwil fwy diweddar fel 'A yw Cymru'n Decach? 2018' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd.

Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydyn ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 1

Gwella sut rydym yn cynnwys grwpiau gwarchodedig yn ein gwaith a'n penderfyniadau ac yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw am y rheiny.

Cynhaliodd ein Tîm Cyfathrebu nifer cyfyngedig o ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd pandemig COVID-19. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o ymgynghoriadau gynnydd, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r gyllideb. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad blynyddol ar y gyllideb rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021 a dim ond 16 o ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar-lein. Dyma'r gyfradd ymateb isaf a gofnodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O'r 16 o ymatebwyr, atebodd 15 y cwestiynau monitro cydraddoldeb, sef cyfradd ymateb o 93%.

Roedd cyfradd ymateb ychydig yn uwch gan breswylwyr sy'n nodi eu bod yn fenywod na dynion. Mae 100% o'r ymatebwyr yn wyn ac yn heterorywiol. Mae gan rai gyfyngiadau ar eu bywydau o ddydd i ddydd oherwydd salwch neu anabledd parhaus. Roedd yr ymatebwyr o ystod o oedrannau ond roedd y mwyafrif rhwng 35 a 74 oed. Nid yw hwn yn grŵp arbennig o amrywiol, fodd bynnag, roedd yn nifer mor fach o ymatebwyr nad yw hyn yn bryder.

Yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â phreswylwyr. Byddwn yn dibynnu ar ddulliau digidol yn bennaf, ond byddwn bob amser yn darparu ffordd arall o ymateb er mwyn peidio ag eithrio unrhyw un a allai fod wedi'i allgáu'n ddigidol.

Cymeradwywyd y cynllun cyflawni blynyddol drafft ym mis Mawrth, a phennwyd cyllideb y Cyngor, gan gynnwys lefel y dreth gyngor, ym mis Mai. Mae'r cynllun cyflawni blynyddol yn cynnwys camau gweithredu sy'n ceisio gwella lles preswylwyr, ymgysylltu â grwpiau mwy gwarchodedig a gwella gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol.

Yn ogystal â pharhau i geisio barn grwpiau gwarchodedig mewn perthynas â pholisïau a gwasanaethau, buom hefyd yn cynorthwyo cydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gyrraedd grwpiau gwarchodedig ac nas clywir yn aml gyda'r Cyfrifiad, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021.

Mae'r tîm cyfathrebu wedi bod yn ymwneud â'n rhwydwaith cydweithwyr a chynghreiriaid LHDT+ staff a hefyd wedi cefnogi rhwydwaith newydd ar gyfer cydweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion a wynebir gan gydweithwyr o grwpiau gwarchoddedig.

Mae ein Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn monitro ymatebion i sicrhau bod pawb yn y gymuned yn cael mynediad cyfartal i'r broses gwyno a gwasanaethau cwsmeriaid eraill gan sicrhau na wahaniaethir yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchoddedig yn hyn o beth.

Lle nad yw pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig yn cael eu cynrychioli yn yr adborth, rydym yn ymgymryd â gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu i sicrhau nad yw'r grwpiau hynny'n cael eu gwahaniaethu'n annheg oherwydd diffyg mynediad i'r broses gwyno.

Pan fyddwn yn derbyn cwynion gan y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, gallwn ddefnyddio hyn i ganfod sut y caiff gwasanaethau eu darparu i'r grŵp hwnnw gan sicrhau nad oes gwahaniaethu.

Nid yw'r Gwasanaethau Etholiadol yn monitro data cydraddoldeb bob tro ar gyfer cofrestriadau newydd ond mae'n gwneud llawer o waith i gyrraedd demograffeg amrywiol. Yn anffodus, oherwydd Covid19, nid ydym wedi gallu mynd allan i'r gymuned gymaint ag ydym mewn blynyddoedd blaenorol, ond rydym wedi ceisio addasu cymaint o'n cynlluniau â phosibl gyda digwyddiadau neu adnoddau ar-lein. Cynhaliwyd y digwyddiadau canlynol gennym:

- Hysbysebion arosfannau bysiau wedi'u hanelu at bobl ifanc a gwladolion tramor cymwys.
Bydd hyn yn rhedeg ar yr un pryd ag wythnos Senedd y DU.
- Wythnos Senedd y DU – ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i hanelu at bobl ifanc.
- Diwrnod rhyngwladol ieuencid – Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol

- Cartrefi gofal – Hwyluswyd pwynt cyswllt ym mhob cartref gofal ym Mro Morgannwg, er mwyn sicrhau bod oedolion sy'n agored i niwed yn gallu cofrestru heb rwystrau.
- Hosteli, preswylwyr digartref ac asiantaethau tai – taflenni symud wythnosol a ddarperir i ni gan yr Adran Ddigartrefedd i sicrhau y gallwn annog preswylwyr digartref i gofrestru i bleidleisio o hyd.
- Mae ein holl allbwn cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddsbarthu i'w rannu â Swyddog Adsefydlu Rhanbarthol Bro Morgannwg, sy'n gweithio gyda gwladolion o Syria sydd wedi ymsefydlu ym Mro Morgannwg.
- Ysgolion – Pecyn cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau a rennir i'w ddsbarthu ar ystafell ddsbarth Google a llwyfannau eraill i annog cofrestru ar gyfer pobl ifanc.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth i annog pobl ifanc rhwng 14-17 oed i gofrestru gyda'r wobr yn iPad.
- Mae ein canfasio blynyddol o dŷ i dŷ yn galluogi unrhyw un a allai fod angen cymorth, i gael y cyfle i gofrestru i bleidleisio.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 2

Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog i leiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn mis Mawrth 2021, ac adrodd ar y ddau yn flynyddol.

Rydym yn monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau o leiaf bob chwarter ac rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yr ydym yn ei adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau wedi aros yn debyg dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn adrodd ar hyn bob chwarter drwy ddangosyddion perfformiad. Rydym hefyd yn adrodd arno'n flynyddol yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol hwn.

Cafodd yr adolygiad cyflog diweddar yn 2019 mewn perthynas â'r raddfa Cyd-gyngor Cenedlaethol ddiwygiedig effaith gadarnhaol ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau. Rydym yn gwneud gwaith i adolygu'r strwythur cyflog presennol a byddwn unwaith eto'n ystyried y bylchau cyflog rhwng y rhywiau a'r ethnigrwydd. Wrth recriwtio i rolau, rydym yn ystyried ble rydym yn hysbysebu i sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth ar draws yr holl grwpiau sy'n ymgeisio. Yr ydym hefyd yn drafftio Strategaeth Atyniad a fydd yn canolbwyntio ar wella ein proffil amrywiaeth ar draws y Cyngor.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 3

Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn agosach erbyn mis Mawrth 2024.

Rydym wedi bod yn archwilio sut rydym yn cyrraedd gwahanol grwpiau mewn perthynas â phostio hysbysebion gan ddefnyddio gwahanol allfeydd a delweddau mwy amrywiol i ddenu ystod ehangach o ymgeiswyr. Byddwn yn gweithio gyda'n rhwydweithiau amrywiaeth i edrych ar ffyrdd y gallwn ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i'n rolau.

I bobl ifanc, rydym yn darparu cymorth arbenigol i grwpiau penodol i gefnogi dysgu a mynediad dysgwyr i'r farchnad gyflogaeth. Mae Covid 19 wedi cyfyngu ar y gwaith hwn ond rydym wedi darparu cyrsiau lles ar-lein ac wyneb yn wyneb pan fo'n briodol i gefnogi dysgwyr a staff sy'n agored i niwed. Rydym wedi darparu Grwpiau FAN (teulu a ffrindiau), mae Men's Shed wedi'u sefydlu i ddarparu darpariaeth amgen, nad yw'n cael ei chwmpasu ar hyn o bryd gan gyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned LIC, gyda'r nod o gefnogi unigolion gyda'u hiechyd meddwl a'u lles ac i fynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd.

Mae Tîm Cymunedau am Waith y Fro yn hyfforddi ei staff prosiect i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel y gallant herio unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth neu ymddygiad

amhriodol arall. Mae'r staff hefyd wedi cael hyfforddiant anabledd ac mae ganddynt swyddog arweiniol enwebedig ar gyfer hyn - Hyrwyddwr Anabledd. Ein nod yw sicrhau bod holl ddarpariaethau ein gwasanaeth yn gynhwysol. Gan fod y rhaglen yn targedu'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi, rydym yn gweithio gyda nifer uchel o bobl sy'n tueddu i ddioddef mwy o rwystrau ac mae rhai o'r rhwystrau hynny'n gysylltiedig ag iechyd, er enghraifft, iechyd meddwl ac anghenion arbennig. Rydym yn darparu adnoddau i bobl sydd â rhwystrau cymhleth.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 4

Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

Rydym yn parhau â'n gwaith fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall gan ddefnyddio Mynegai Cydraddoldeb Gweithlu Stonewall i lywio ein gwaith. Ataliwyd cyflwyniadau yn erbyn y mynegai yn ystod pandemig Covid ond parhawyd i weithio gyda'n rhwydwaith staff LHDT+ i godi ymwybyddiaeth o faterion LHDT+, ceisio adborth ar faterion yn ymwneud â'r gweithle a gwneud ein gweithle'n fwy cynhwysol.

Gwnaethom hefyd barhau i gynnal trafodaethau rhwng uwch arweinwyr a staff drwy ein Fforwm Ymgysylltu ac Arloesi Corfforaethol, gan gynnwys trafod ein Llyfr Diwylliant sy'n rhoi gwybodaeth am ein gwerthoedd, rhwydweithiau staff a sut rydym yn hyrwyddo cynwysoldeb.

Canolbwyntiwyd ar hybu iechyd a lles staff yn ystod epidemig Covid ar adeg pan oedd cymaint o newidiadau ym mywydau gwaith a phersonol pobl.

Gwnaethom ystyried sut y gallem hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn ffordd sy'n herio stereoteipiau rhyw. Enghraifft o hyn oedd ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Gosodwyr Cerbydau Modur a oedd yn cynnwys delweddau gwrywaidd a benywaidd i herio'r stereoteip. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i hyn drwy Facebook, Instagram a LinkedIn. Enghraifft arall yw ein hysbysebion Gofal Cymdeithasol sydd wedi cynnwys delweddau gwrywaidd a benywaidd gyda chymorth adnoddau

Gofalwn Cymru. Mae hyn wedi bod yn bwysig o ran sicrhau ein bod yn cael cynifer o ymgeiswyr addas ar draws y ddau ryw.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 5

Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.

Mae gan aelodau fynediad at IDev lle gallant ddod o hyd i ystod o fodiwlau e-ddysgu ar faterion cydraddoldeb. Mewn ymateb i'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, darparwyd hyfforddiant gwrth-hiliaeth i Aelodau a rhoi cysylltiadau iddynt ag adnoddau ar-lein ar sut mae rhagfarn hiliol yn gweithio a sut i darfu arni a'r gwahaniaeth rhwng peidio â bod yn hiliol a gwrth-hiliaeth.

Darparwyd adroddiadau gennym ar gyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a gwneud trefniadau i ddarparu hyfforddiant ar hyn.

Rydym yn parhau i adolygu hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau ac yn trefnu i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 6

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc a rhoi cymorth i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Rydym wedi datblygu a gweithredu camau gweithredu mewn nifer o ffyrdd i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad ar gyfer plant a phobl ifanc a allai fod â rhwystrau i gyrhaeddiad ac ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchoddedig.

Gan gydnabod y gall bwlio fod yn rhwystr i blant a phobl ifanc gyflawni eu potensial, ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gynhyrchu Polisi Gwrth-fwlio Enghreifftiol. Darparwyd hyn i bob ysgol ym Mro Morgannwg i'w fabwysiadu fel eu polisi ysgol unigol eu hunain. Roedd llunio'r polisi hwn yn broses hir ac ystyriol a oedd yn cynnwys ymgynghori â phobl ifanc a rhanddeiliaid allweddol yr ystyriwyd eu barn a'u

hadlewyrchu yn y polisi. Mae'r polisi Gwrth-fwlio Enghreifftiol yn adlewyrchu egwyddorion canllawiau 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' Llywodraeth Cymru 2019. Casglwyd data gwrth-fwlio yn flaenorol cyn cyfnod clo COVID ac roedd hyn yn helpu i lywio'r gwaith o lunio'r polisi.

Mae'r polisi nid yn unig yn canolbwyntio ar ymddygiad cas traddodiadol ar ffurf bwlio traddodiadol ond mae hefyd yn rhoi pwyslais sylweddol ar ffocws pob math o fwlio a digwyddiadau unigol sy'n gysylltiedig â rhagfarn sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig, megis hiliaeth, trawsffobia, rhywiaeth, gwreig-gasineb, anghenion addysgol arbennig ac anabledd. Casglwyd cyson o ddata bwlio mewn ysgolion a digwyddiadau rhagfarn untro bob tymor drwy gydol y flwyddyn academaidd 20-21. Mae'r cyfnod casglu hwn wedi gweld llawer o ysgolion yn cau a llai o bresenoldeb oherwydd pandemig COVID19. Yn y cyd-destun hwn, nid ydym eto wedi nodi cywirdeb a gwir adlewyrchiad o dueddiadau data bwlio.

O gasglu data ysgolion 2020-21 gellir gweld mai'r ffurf fwyaf cyffredin yn ystod hydref 2020 oedd bwlio ar lafar wyneb yn wyneb gan ganolbwyntio ar sylwadau hiliol, dangosodd un o ddigwyddiadau rhagfarn mai'r rhai mwyaf cyffredin yw digwyddiadau llafar a oedd yn canolbwyntio ar ymddangosiad. Yn ystod Gwanwyn 2021, pan gaewyd ysgolion yn bennaf, mae'n amlwg mai bwlio ar-lein oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau heb unrhyw ardal benodol o ffobia yn sefyll allan. Yn ystod ein casgliad data cychwynnol 20-21, nid ydym wedi gallu nodi unrhyw dueddiadau. Roedd y casgliad blaenorol o ddata wedi'i ddyddio ac nid oedd yn canolbwyntio ar yr un categorïau â'r set newydd o gategorïau felly ni allem eu cymharu.

Ar hyn o bryd, wrth i ni barhau i gasglu data, ni fu unrhyw ofyniad i ganolbwyntio ar unrhyw fathau o ymyrraeth na chymorth i ysgolion wrth fynd i'r afael ag achosion o fwlio a rhagfarn. Byddwn yn parhau i fonitro hyn. Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â darparwyr y trydydd sector, megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i gael cymorth i ysgolion i godi ymwybyddiaeth o hil a mathau eraill o ragfarn.

Mae'r data y gofynnwn amdano yn unol â'r categorïau adrodd data a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn bellach yn cynnwys cyfres well o feysydd data

gan gynnwys y math o ddigwyddiad rhagfarn, er enghraifft, hiliaeth, trawsffobia, rhywiaethol, ynghyd â'r math o fwlio a ddefnyddir, er enghraifft, wyneb yn wyneb, arlein, perthynol, gwahardd neu ynysu. Bydd y math hwn o ddata ynghyd â data SIMS wedi'i fudo sy'n amlinellu ethnigrwydd, oedran a rhyw'r dioddefwr yn rhoi mwy o eglurder i ni. Byddwn yn gallu craffu'n fanylach ar y data fel y gallwn nodi tueddiadau a rhagweld materion sy'n dod i'r amlwg a materion yn y dyfodol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 21-22 ac ymlaen mae bwriad y bydd pob ysgol ym Mro Morgannwg yn rheoli ac yn cofnodi pob digwyddiad bwlio a rhagfarn untro ar system TG Diogelu bwrpasol, gan sicrhau data mwy cywir a chyson y gellir ei ddadansoddi gyda mwy o graffu.

Bydd dadansoddiad corfforaethol o ddata gwrth-fwlio ysgolion a rhagfarn untro bob tymor. Bydd datrysiad meddalwedd diogelu ar y we, sy'n integreiddio â'r system TG diogelu ysgolion, yn galluogi hyn i ddigwydd.

Rydym wedi gwneud gwaith amlasiantaethol i sicrhau bod ysgolion sydd wedi nodi materion yn ymwneud â gwaharddiadau yn cael cymorth priodol ac yn cyfeirio at asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â hyn. Ceir tystiolaeth o hyn yn y gwaith wedi'i dargedu gydag Ysgol Gyfun Sant Cyres a Phencoedtre ynghylch cymorth i ymateb i faterion sy'n ymwneud ag anableddau hiliol ac iechyd meddwl.

Rydym wedi defnyddio grant Addysg Ddewisol yn y Cartref Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dysgwyr addysg yn y cartref etholedig sy'n agored i niwed yn gallu cael gafael ar gymorth a gwasanaethau.

Rydym wedi rhoi pwyslais ar gyflwyno hyfforddiant sy'n ymwneud â materion cynhwysiant ac allgáu a chynlluniau cymorth bugeiliol. Mae creu tîm Lles ac Ymgysylltu Cyrhaeddiad newydd i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed wedi galluogi gwell mynediad ac ymgysylltiad â chynigion ysgol. Mae hyn yn unol â'n dull ehangach o fynd i'r afael ag anghenion disgyblion sy'n gysylltiedig â thrawma plentyndod cynnar. Mae'r dull yn cynnwys canolbwytio ar ddeall a diwallu

anghenion penodol dysgwyr sy'n agored i niwed yn hytrach na mabwysiadu dull cosbi o ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â'r dysgwyr hyn o'r cychwyn cyntaf.

Rydym wedi creu adroddiadau Ysgol Rithwir fel mecanwaith i adnabod dysgwyr yn seiliedig ar ethnigrwydd. Mae'r adroddiadau'n ein galluogi i olrhain a monitro dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o dangyflawni. Unwaith y bydd y dysgwyr hyn wedi'u nodi, ar lefel ysgol, mae'r tîm yn darparu rhaglen o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr ysgolion a'u dysgwyr, wrth edrych ar anghenion y plentyn cyfan.

Ers 2017, darparodd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed bwynt cyswllt canolog ac allweddol rhwng yr ysgolion a'r cartref, yn enwedig pan nad oes arian ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i gefnogi dysgwyr y Ddarpariaeth Adnoddau Arbenigol. Bu'r cyswllt hwn rhwng yr ysgol a'r cartref yn ganolog wrth sicrhau bod y teuluoedd o'r Adnodd Arbenigol

Roedd y ddarpariaeth yn gallu cefnogi eu plant gyda dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo. Roedd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn gallu lleddfu ofnau'r teuluoedd o ran galluogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr i gael mynediad i'r lleoedd ysgol canolbwynt a gynnigir. Darparodd y tîm gyswllt rheolaidd â theuluoedd o'r Ddarpariaeth Adnoddau Arbenigol yn ystod y cyfnod clo i sicrhau bod cymorth academiaidd, cymdeithasol ac emosïynol ar gael i'r plant, ac i barhau i ddatblygu'r berthynas gadarnhaol sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda'r teuluoedd hyn, yn enwedig gan fod llawer o'r rhieni hyn yn teimlo'n ynysig.

Mae'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn cefnogi ysgolion i wneud cais am gyllid gan y Swyddfa Gartref i gyflogi Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Gradd 5 sy'n siarad Arabeg. Mae'r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu hyn mewn ysgolion a'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed, a ariennir o'r grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn rhoi cymorth i'r dysgwyr yn yr ysgolion ac yn cysylltu rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed wedi datblygu perthynas ragorol gyda'r plant, eu teuluoedd a staff mewn ysgolion. Mae'r cydberthnasau hyn yn hwyluso cyfathrebu ysgolion a rhieni er mwyn canfod anghenion newidiol y plant a sut y gellir diwallu'r rhain. Atgyfnerthwyd y cydberthnasau ysgol gartref hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i'r Cynorthwywyr

Cymorth Dysgu a'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed ddarparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y dysgwyr yn Rhaglen Adsefydlu Pobl Syria.

Mae'r tîm yn gwneud pob ymdrech i symud y plant tuag at lefel o annibyniaeth gymdeithasol ac emosiynol, gan gynorthwyo gydag anawsterau cyfeillgarwch, trafod normau diwylliannol a gwobrau a chanlyniadau lle bo hynny'n briodol. Roedd y cymorth wedi'i dargedu yn cynnwys uwchsgilio'r rhieni mewn dysgu ar-lein, megis gwersi fideo ar ddefnyddio llwyfannau ar-lein ac adnoddau darllen ar-lein.

Ym mis Ionawr 2020, treialodd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed y defnydd o 'Giglets', llwyfan llythrennedd ar-lein arobryn sy'n cefnogi ysgolion gyda llythrennedd ac iaith amlieithog. Ariannwyd yr adnodd ar-lein hwn drwy grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'i dreialu yng Ngwanwyn a Haf 2020. Roedd y tîm yn cynnwys rhieni yn y gwersi llythrennedd ar-lein i gefnogi dysgu eu plant, a dywedodd eu bod hefyd yn helpu i wella eu sgiliau Saesneg eu hunain. Yn ystod y cyfnod clo, daeth yr adnodd ar-lein hwn yn offeryn hanfodol ar gyfer cefnogi a chynnal sgiliau darllen gyda dysgwyr o'r Ddarpariaeth Adnoddau Arbenigol. Roedd yr ysgolion a'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn gallu dyrannu llyfrau ar-lein i ddysgwyr o bob oed a gallu i ddarparu cyfleoedd perthnasol a phriodol iddynt ar adeg pan nad oeddent yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau darllen strwythuredig.

Cadwodd pob dysgwr wedi'i dargedu o Raglen Adsefydlu Pobl Syria eu Lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol a lefelau darllen i'r rhai cyn cyfyngiadau Covid 19. Roedd caffael Saesneg yn gwella ar gyfer pob dysgwr Darpariaeth Adnoddau Arbenigol wedi'i dargedu o fewn y cam cymhwysedd 'Newydd i Saesneg'.

Cafodd dysgwyr wedi'u targedu o'r Ddarpariaeth Adnoddau Arbenigol yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 gymorth parhaus yn ystod cyfyngiadau Covid 19, yn uniongyrchol ac mewn amser real drwy ystafell ddosbarth Google. Mae pob dysgwr Darpariaeth Adnoddau Arbenigol wedi'i dargedu yn CA3 a CA4 wedi gwella eu cywirdeb darllen a'u hoedran deall gan o leiaf 12 mis (asesiadau sylfaenol Asesiad Efrog Darllen ar gyfer Deall Medi 2019 ac a ail-aseswyd ym mis Medi 2020).

Mae dau ddysgwr Darpariaeth Adnoddau Arbenigol ym Mlwyddyn 10 wedi cyflawni deilliannau TGAU yn 2020. Cyflawnodd un dysgwr, sydd wedi bod yn yr ysgol yn y DU ers ychydig dros 18 mis, TGAU gradd D mewn llenyddiaeth Saesneg a gradd C mewn rhifedd, a chyflawnodd y dysgwr arall sydd wedi bod yn yr ysgol ers bron i 5 mlynedd, TGAU gradd D mewn llenyddiaeth Saesneg a gradd E mewn rhifedd. Yn 2019-2020, roedd un dysgwr Darpariaeth Adnoddau Arbenigol ym Mlwyddyn 12. Roedd y dysgwr yn yr ysgol yn y DU am ychydig o dan 3 blynedd ac enillodd radd UG C mewn seicoleg, gradd D mewn bioleg, gradd C mewn tecstilau a gradd E mewn cemeg a oedd yn caniatáu i'r dysgwr symud ymlaen i Flwyddyn 13.

Y gweithgaredd diweddaraf i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc fu i Ysgol Gyfun Sant Cyres gael ei chydabod fel Ysgol Noddfa. Roedd y panel yn unfrydol wrth gytuno y dylid cydnabod Ysgol Gyfun Sant Cyres fel Ysgol Noddfa ym mis Medi 2021. Cefnogodd y tîm yr ysgol i wneud cais am y dyfarniad. Yr ysgol yw'r cyntaf yn y Cyngor i ennill y wobwr hon.

Mae'r bylchau cyrhaeddiad yn seiliedig ar ethnigrwydd wedi'u seilio ar ddata a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol. Ym Mro Morgannwg, nid dysgwyr o gefndir Lleiafrifoedd Ethnig sy'n wynebu'r risg fwyaf o dangyflawni ac mae hynny'n seiliedig ar ddata ar lefel ysgolion. Gall hyn fod yn anecdotaidd, ond ni ellir ei anwybyddu. Byddai'n fwy ystyrlon pe bai bylchau cyrhaeddiad yn seiliedig ar lefel caffael iaith ynghyd ag ethnigrwydd dysgwyr, anghenion dysgu ychwanegol a chefnidir economaidd-gymdeithasol a nodwyd.

Bu mwy o newid yng ngwaith y tîm o ran aiddrafftio Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer ysgolion i gefnogi cynnig addysg mwy cynhwysol i ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Bu cynnydd boddhaol i gefnogi ymarferwyr i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gadarnhaol a bod yn wrth-hiliol, drwy ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer ysgolion. Mae'r cynllun gwaith ar gyfer gweithredu ar y trywydd iawn i'w gwblhau a'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu (Dysgu a Diwylliant) wedi ystyried y drafft yn ddiweddar.

Prin fu'r cynnydd yn y canlyniad i wella adnoddau i athrawon ar wrth-hiliaeth, amrywiaeth a hanes Pobl Dduon. Un cam cadarnhaol fu deialog o ran sut y gallai Strategaeth Cydraddoldeb a Rhagoriaeth Consortiwm Canolbarth y De fod yn wrth-hiliol yn weithredol, ac yn cefnogi ysgolion i ddatblygu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd gan Gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, Cyfraniadau a Chynefin yng Ngweithgor y Cwricwlwm Newydd.

O ran cefnogi plant a phobl ifanc LHDT+ i gyflawni eu potensial, rydym yn darparu cymorth fel a ganlyn:

- Mae'r tîm Cynhwysiant wedi'u hyfforddi gan y Prosiect Cydnerthedd i gefnogi anghenion iechyd meddwl a chynnig cymorth i ddysgwyr sy'n pontio neu sy'n profi anawsterau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol.
- Mae'r tîm Cynhwysiant yn rhannu adnoddau gan sefydliadau fel Mermaids a Stonewall i gefnogi dysgwyr, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion.
- Mae'r staff wedi cael hyfforddiant arbenigol i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth priodol sy'n diwallu anghenion y cymunedau LHDT+ ifanc.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 7

Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throeddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae gennym brosesau ar waith i fynd i'r afael â throeddau casineb. Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gweithio'n agos gyda Swyddog Troeddau Casineb Heddlu De Cymru, sy'n ymateb i'r holl droeddau casineb a digwyddiadau casineb ledled y Fro. Mae cyfarfodydd ar y cyd yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo negeseuon priodol yn seiliedig ar y mathau o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd ac ar sicrhau bod cydlyniant cymunedol yn cael ei gefnogi ledled y Fro.

Rydym yn monitro sut rydym yn gwneud gwelliannau wrth ddelio â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy gasglu data. Mae dadansoddi data yn cyfeirio at y gwasanaethau a'r gwaith sy'n cael ei weithredu mewn perthynas ag agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Rydym yn gwella ymwybyddiaeth ymhlith pobl yn y gymuned o'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Eleni gwelwyd cynnydd sylweddol yn lefel yr ymgysylltu â'r cyhoedd o ran cyngor a chymorth diogelwch cymunedol. Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi 24 o swyddi yn ymwneud yn benodol â throseddau casineb a 72 yn ymwneud â cham-drin domestig. Cynyddodd aelodaeth y cyfryngau cymdeithasol i 466 o ddilynwyr Facebook, 140 o ddilynwyr Instagram a 857 o ddilynwyr Twitter. Derbyniodd yr amrywiaeth eang hon o unigolion 430 o negeseuon trydar, 393 o negeseuon Facebook a 49 o negeseuon Instagram. Mae hyn yn gynnydd cadarnhaol yn nifer y negeseuon cyngor a chymorth sy'n cael eu rhoi i unigolion a allai fod yn agored i niwed ledled y fro.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 8

Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

Rydym wedi adolygu a diwygio'r broses ddyrannu ar gyfer aelwydydd ag anghenion tai hygyrch er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr anabl bellach yn cael eu hystyried ar gyfer nifer fwy o gartrefi sy'n ystyried pob addasiad rhesymol a phriodol. Bydd adolygiad ehangach o'r Cynllun Homes4U yn cael ei ystyried nesaf er mwyn sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn cael eu dyrannu'n gymesur. Mae trafodaethau cychwynnol wedi dechrau gyda phartneriaid gan gynnwys nifer o fentrau ymgynghori.

Mae datblygu gwasanaethau o dan y Strategaeth Pobl Hŷn bellach wedi'i rhoi ar gontract allanol.

Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant LHDTTC+ gyda hyrwyddwr yn cael ei benodi i yrru ymwybyddiaeth yn ei flaen.

Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae'r adran hefyd wedi comisiynu Swyddogion drwy Wasanaeth Cefnogi Pobl / Grant Cymorth Tai'r Cyngor i gynorthwyo dull Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru sy'n deillio o bwysau'r pandemig.

Rydym yn gweithio gydag ein hasiantaethau partner i ddarparu ein contractau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio gyda chynifer o bobl â phosibl y mae angen ein gwasanaethau arnynt. Rydym yn sicrhau ein bod yn mapio anghenion, yn dadansoddi data ac yn datblygu manylebau contract sy'n adlewyrchu arfer da ac yn cadw pobl yn ddiogel. Mae ein partneriaid yn sicrhau bod gan bawb y cyfle i fod yn rhan o'u cymunedau ac yn hyrwyddo cyfranogiad.

Gyda'n darparwyr trydydd sector rydym yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth, lleihau a rheoli dyled, cael y budd mwyaf o fudd-daliadau a rheoli arian. Rydym hefyd yn mynd i'r afael â ffactorau amgylcheddol drwy ein contractau.

Mae ein partneriaid trydydd sector yn rhoi cymorth i bobl sydd ar y sbectrwm nodweddig gwarchoddedig ac yn sicrhau bod modd i bawb ddefnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn hyrwyddo cyfranogiad o fewn ein contractau ac yn adolygu ein darparwyr yn gyson i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau i safon dda.

Rydym yn contractio i ddarparwyr trydydd sector sy'n helpu pobl i ddod yn fwy actif a chymryd rhan mewn gweithgareddau, ac maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a byw'n iach. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn gyfrifol am ymgysylltu â chleientiaid agored i niwed sy'n anodd eu cyrraedd a rhoi cymorth iddynt gynnal eu tenantiaeth.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 9

Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn.

Rydym yn gweithio gyda'n darparwyr cymorth i deithwyr i'w hannog i ddarparu hyfforddiant perthnasol i'w staff mewn materion fel defnyddio lifftiau ac ataliadau ar gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Gofynnwn am gadarnhad bod hyn wedi'i wneud.

Rydym yn hyfforddi ein staff ein hunain, er enghraifft gyrwyr gwirfoddol Greenlinks.

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o Deithio Rhatach Llywodraeth Cymru i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cynllun. Rydym yn gwneud hyn drwy esbonio'r cynlluniau sydd ar gael ar wefan y Cyngor, gan gynnwys Pàs Teithio Rhatach Llinellau Caerdydd a'r Cymoedd a Chynllun Teithio Gostyngol i Bobl Ifanc Cymru.

Rydym wedi gosod nifer o gyrbau uchel wrth uwchraddio arosfannau bysus i helpu pobl lai abl i fynd ar fysiau ac oddi arnynt. Rydym wedi ymgorffori arddangosfeydd amserlen electronig yn ein gwaith uwchraddio i arosfannau bysiau sy'n rhoi gwell gwybodaeth i'r teithiwr ac yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn mwy deniadol na defnyddio'r car preifat.

Yn ogystal, fel rhan o gynlluniau Teithio Llesol, rydym wedi gosod croesfannau palmant cyffyrddol ger arosfannau bysiau i gynorthwyo'r rhai sydd ag anawsterau gweld.

Rydym yn darparu parcio am ddim i bobl anabl sydd â bathodyn glas. Rydym wedi darparu manau parcio ychwanegol i'r anabl yn Ynys y Barri ac wedi gweithredu'r cilfannau i'r anabl.

Rydym yn monitro gwasanaethau i sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel sy'n ystyried trafnidiaeth mewn cynlluniau cymorth unigol. Er enghraifft, lle bo'n berthnasol, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn

cael eu cefnogi i wneud cais am y Taliad Annibyniaeth Bersonol i helpu gyda chostau trafndiaeth, gyda chymorth dysgu sut i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cynllunio teithiau ac ati.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 10

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchodedig.

Mae pandemig Covid wedi effeithio ar ein gwaith i hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Fel arfer, rydym yn cynnal arolygon i gael adborth ar farn pobl am ein cyrchfannau ymwelwyr ond mae hyn wedi bod yn anodd ei wneud eleni. Mae'r broses hon yn ein galluogi i sicrhau bod anghenion pob cymuned yn cael eu diwallu wrth ymweld â ni ac os bydd unrhyw grŵp penodol yn dangos newid mewn tuedd neu ymateb penodol i agweddau penodol yna gallwn ei nodi ac ystyried camau priodol.

Mae'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn offeryn i rymuso sefydliadau ledled y Fro i arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiectau sy'n gwasanaethu eu cymunedau. Rhaid i bob prosiect ddangos sut y maent o fudd i grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae'r ystod o brosiectau a gefnogir yn dangos bod y gronfa yn bennaf yn helpu i wella ymgysylltiad â grwpiau gwarchodedig, gan weithio mewn partneriaeth i ystyried anghenion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, a hyrwyddo amgylchedd naturiol ac adeiledig a threftadaeth ddiwylliannol – gan gynnwys hygyrchedd.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Fe welwch yn [Atodiad 4](#) bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adrodd ar faterion eraill sy'n ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb isod.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu proses o feddwl mewn cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn bwysig i ni feddwl am sut y gallai'r newidiadau o ran y gyllideb effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Yn fwy diweddar, rydym hefyd wedi gorfod meddwl am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol iawn. Mae hyn oherwydd ein bod yn gwybod y bydd mwy o bwysau'n cael eu rhoi ar gyllidebau bob blwyddyn am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth i ni wneud hyn, rydym yn meddwl am sut y bydd hyn yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig ac rydym yn siarad gyda hwy amdanynt.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, gwnaethom ddiwygio ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb a'n canllawiau i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar yr un pryd, roeddem hefyd yn adlewyrchu ystyriaethau'r Iaith Gymraeg yn y broses asesu.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu ar amrywiaeth o bynciau cydraddoldeb.

Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu rhai meysydd gan gynnwys: gwybodaeth sylfaenol am gydraddoldeb; sut i asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb); ymwybyddiaeth o anabledd; a gwybodaeth am faterion trawsryweddol.

Gall pobl edrych ar y modiwlau e-ddysgu o'u cyfrifiaduron a ddarperir gan y Cyngor. Gallant hefyd gael mynediad atynt o'u cartrefi drwy eu dyfeisiau personol. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

Caffael

Mae proses gaffael gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau bod prosesau caffael yn ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys diwydrwydd dyladwy drwy ddogfennau tendro.

Mae gan y cam dethol o broses gaffael y Cyngor saith o gwestiynau wedi'u sgorio a all ddod yn fater llwyddo neu fethu gorfodol os oes angen. Y cwestiwn cyntaf yw:

"Fel cyflogwr, a oes gennych bolisi a darpariaethau ar waith i sicrhau bod eich sefydliad a'ch staff yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf

Cydraddoldeb 2010, ac yn unol â hynny, ai eich arfer yw peidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol mewn perthynas â phenderfyniadau i recriwtio, dethol, talu, hyfforddi, trosglwyddo a hyrwyddo cyflogeion? Oes / Nac Oes*

Gall cam dyfarnu'r broses gaffael hefyd gynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gwerthuso.

Hefyd, mae Swyddogion Caffael fel arfer yn mynd i Gynhadledd Gaffael Flynyddol Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mentrau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes caffael moesegol a chynhwysol. Rydym yn derbyn holl ddiweddariadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac rydym yn rhan o Bennaeth Rhwydwaith Caffael Awdurdodau Lleol Cymru. Un enghraifft o gefnogi cydraddoldeb oedd derbyn a lledaenu gwybodaeth am fasgiau wyneb gweld drwodd er mwyn caniatáu darllen gwefusau.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn. Mae'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

- **Cyfweliadau Hygyrch**

Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

- **Ystyriaeth o flaen Llaw**

Rydym yn gwarantu cyfweliad i bobl ag anableddau ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion hanfodol y fanyleb person ar gyfer y swydd.

- **Lleoliad cyfweliad**

Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweliad cyn y cyfweliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweliad os bydd pobl angen hynny.

- **Datblygu galluoedd**

Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol #maeamdanafi

- **Cefnogi cyflogeion**

Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela.

- **Codi ymwybyddiaeth**

Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

- **Adolygu'r cynllun**

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym wedi gallu treialu cynllun profiad swydd ac wedi cynnig lleoliadau i nifer o ymgeiswyr gwaith.

Pencampwr Amrywiaeth Stonewall

Parhaom i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n trin pobl yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

Mae ein gwaith wedi cynnwys cefnogi Rhwydwaith LHDT+ a Chynghreiriaid, a ail-lansiwyd ym mis Ionawr 2019 fel 'GLAM'. Mae aelodau'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd sy'n gysylltiedig â thair ffrwd waith wahanol: effaith yn y gweithle; amlygrwydd ac ymwybyddiaeth; a chymdeithasol a chymorth. Mae gan bob grŵp nifer o amcanion i'w cyflawni i helpu i wneud y gweithle yn fwy cynhwysol i bobl LHDT+. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu polisïau, codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl LHDT+, a threfnu digwyddiadau cymdeithasol i rwydweithio a darparu cymorth i staff. Mae gennym dudalen we GLAM ar ein mewnwrwyd.

Mae gennym Hyrwyddwyr LHDT+ ar lefel Aelodau ac uwch reolwyr.

Rydym yn cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall fel arfer, fodd bynnag, ataliwyd y Mynegai yn ystod pandemig Covid. Mae'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yn darparu fframwaith i wella cynhwysiant lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gweithle.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei statws yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle. Roedd hyn yn arbennig o drawiadol o gofio bod nifer y sefydliadau a gymerodd ran wedi cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, yn 2019 roedd 445 o sefydliadau ac yn 2020 aeth hyn i fyny i 502.

Ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Rydym yn parhau i weithio gyda'r ymgyrch Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Elusen ydyw sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o hiliaeth a homoffobia. Mae'n defnyddio pêl-droedwyr a sêr chwaraeon eraill fel esiamplau i wneud hyn. Mae'n cyflwyno gweithdai mewn ysgolion a lleoliadau ieuencid i blant a phobl ifanc am hiliaeth ac yn darparu sesiynau ffitrwydd hwyliog.

Mae'r gweithdai'n cael effaith gadarnhaol gyda disgyblion yn dweud eu bod wedi newid y ffordd maen nhw'n trin eraill. Byddai mwy na 90% o athrawon yn argymhell y gweithdai i ysgol arall.

Ar ôl y gweithdai: mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o hiliaeth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd yn cynyddu yn ogystal â hyder wrth siarad am hiliaeth.

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020, darparodd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth hyfforddiant gwrth-hiliaeth i Aelodau Etholedig ac uwch swyddogion. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu rôl deddfwriaeth, a throsolwg o nodweddion gwarchoddedig, rhagfarn a rhagfarn anymwybodol, archwiliad o'r rhwystrau i fynd i'r afael â rhagfarn yn y gweithle a ledled cymdeithas, ac iaith cydraddoldeb.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Cyngor ar Awtistiaeth i Oedolion gynt)

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn dîm amlasiantaeth o staff awdurdodau lleol ac iechyd sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n rhoi diagnosis a chymorth i oedolion sydd ag awtistiaeth. Dechreuodd y tîm yn 2012 a datblygodd i fod yn Wasanaeth Awtistiaeth Integredig yn 2017. Mae'r Tîm yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Daw'r gwasanaethau hyn gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau allanol, a sefydliadau'r trydydd sector. Yna mae'r tîm yn cefnogi cleientiaid i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn ac yn darparu cymorth wedi'i dargedu'n well os oes rhwystrau.

Mae'r gwaith hwn yn helpu cleientiaid i gael gafael ar gymorth neu gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y gymuned ehangach. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am wasanaethau cymorth neu'n teimlo nad oeddynt yn gallu manteisio arnynt. Mae hefyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau atal sy'n bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae ymyriadau tymor byr, wedi'u targedu, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn annog pobl i fod yn annibynnol a pheidio â dod yn ddibynnol ar y tîm.

Cyn dechrau Covid roedd y rhan fwyaf o'r apwyntiadau yn Wyneb yn Wyneb. Mae cymorth bellach ar gael drwy Hyb Cyngor Rhithwir. Yn ogystal â chyfeirio a chefnogi i

fanteisio ar gyfleoedd eraill, mae'r tîm bob amser wedi rhedeg amrywiaeth o grwpiau. Mae gwaith wedi mynd ymlaen i'w trosi'n fersiynau rhithwir ar-lein. Pan fydd yr argyfwng presennol wedi mynd heibio bydd cael fersiwn rhithwir ar gael yn cynyddu cyrhaeddiad y gwasanaeth.

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Ar hyn o bryd, y grwpiau ar ffurf rithwir yw:

- Grŵp ôl-ddiagnostig lle mae oedolion yn dysgu am y cyflwr y maent wedi cael diagnosis ohono a sut y gallai effeithio ar eu bywydau.
- Gweithdy cyfathrebu sgiliau cymdeithasol.
- Meddwlgarwch
- Bwyta'n iach a deiet cytbwys.

Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

Mae'r Fforwm yn ymgyrchu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol. Mae gan y Fforwm gyfansoddiad a grŵp etholedig o aelodau a elwir y Bwrdd Gweithredol. Y Bwrdd Gweithredol sy'n penderfynu sut mae'r Fforwm yn gweithio.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar agor i bob aelod o'r Fforwm eu mynychu. Drwy fynychu, gall aelodau elwa o amrywiaeth o gyflwyniadau diddorol ar y gwasanaethau sydd ar gael. Mae gan aelodau hefyd gael y cyfle i fynegi eu barn ar ddatblygiadau a chynllunio gwasanaethau. Eleni, mae cyfarfodydd Gweithredol wedi parhau i gael eu cynnal bob mis gyda chyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol amgen, ond oherwydd y cyfyngiadau maent wedi'u cynnal yn ddigidol gan ganiatáu i aelodau ymuno ar-lein a dros y ffôn.

Drwy gydol 2020/21 mae'r Fforwm wedi parhau i fod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed mewn ymgynghoriadau a gwneud penderfyniadau. Mae'r Fforwm wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar amrywiaeth o bynciau eleni gan gynnwys trafndiaeth, iechyd, newid yn yr hinsawdd ac effaith COVID-19.

Ar adeg pan fu'n anos i bobl hŷn gael gafael ar wybodaeth, mae'r Fforwm wedi parhau i gadw mewn cysylltiad â'i aelodau ar-lein a thrwy lythyrau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth allweddol sydd ar gael iddynt. Anfonir bwletinau misol gan gynnwys diweddariadau a gwybodaeth leol at bob aelod a'u dosbarthu i'r 50+ ehangach drwy rwydweithiau a chysylltiadau lleol drwy wasanaethau eraill y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, GGM a Thai Newydd. Mae'r bwletin e misol yn ychwanegol at y cylchlythyrau wythnosol y gallwch gofrestru ar [Wefan y Fforwm](#) sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Eleni cynhaliwyd trafodaethau i sicrhau bod gweithio tuag at y Fro yn cael ei gydnabod fel cyngor sy'n ystyriol o oedran drwy ennill Sefydliad Iechyd y Byd [Statws Oed-gyfeillgar](#) gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae cymuned sy'n ystyriol o oedran yn rhywle lle mae pobl yn dod at ei gilydd i wella bywyd i'r bobl sy'n byw yno, yn enwedig wrth iddynt heneiddio.

Mae 8 maes sy'n nodweddion hanfodol mewn cymunedau sy'n ystyriol o oedran, sef:

- Mannau agored ac adeiladau cyhoeddus
- Trafnidiaeth
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd

Mae'r trafodaethau hyn wedi parhau hyd at 2021 gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yng nghyfarfod Ebrill 2022.

Gallwch ymuno â'r Fforwm os ydych dros bum deg ac yn byw, gweithio neu'n gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.

Datblygu'r Celfyddydau

Ers dros flwyddyn mae bywyd wedi bod yn heriol iawn i'r rhan fwyaf o bobl oherwydd Pandemig COVID 19. Mae deunaw mis yn ddiweddarach, arwahanrwydd, unigrwydd, lles ac iechyd wedi bod yn heriau sylweddol drwyddi draw. Mae'r pandemig wedi gorfodi pobl i gyfathrebu'n wahanol, ar-lein yn bennaf. Drwy'r dechnoleg greadigol hon, mae 'y celfyddydau' wedi ffynnu'n sylweddol. Mae artistiaid unigol a sefydliadau celfyddydol o bob disgyblaeth gan gynnwys y gweledol, perfformio, cerddoriaeth, crefft, llenyddiaeth, barddoniaeth a mwy wedi cynnig cymysgedd amrywiol o gyfleoedd i bawb. Mae'r celfyddydau wedi gallu dod i'r amlwg gan amlygu, creadigrwydd, cyfle, cynwysoldeb, ac amrywiaeth, gan effeithio'n gadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol unigolion drwy gyfoeth o gyfleoedd cyfranogol rhyngweithiol ar-lein. Mae'r celfyddydau'n parhau i gyfathrebu'n ddigidol er mwyn ymgysylltu â phobl yn lleol ac yn fyd-eang.

Mae Swyddog Datblygu'r Celfyddydau wedi dyfeisio a chyflawni rhai prosiectau allweddol yng nghanol y pandemig gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r materion a grybwyllir. Rydym wedi darparu ffocws i'r gymuned ar gyfer pob oedran, cefndir a gallu i gymryd rhan neu edrych ar gyfleoedd celfyddydol. Disgrifir rhai o'r digwyddiadau a'r gweithgareddau allweddol isod.

Caiff **Diwrnod Cofio'r Holocost** ei nodi'n flynyddol ledled y byd ar 27 Ionawr i goffáu pen-blwydd rhyddhau Auschwitz-Birkenau. Y llynedd, y thema oedd 'Byddwch y goleuni yn y tywyllwch' gan Ymddiriedolaeth Goffa'r Holocost Llundain. Mae'r digwyddiad rhyngwladol hwn yn ein galluogi i fyfyrio ar weithredoedd yn y gorffennol fel unigolion tra'n cydnabod y dyfnderoedd y gall dynoliaeth ddisgyn o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac yn parhau i'w gwneud heddiw. Mae'r thema'n tynnu sylw at ba mor unigol y gallwn ni 'fod y goleuni!' gan oleuo gwirioneddau, undod, cefnogaeth ac achub i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd y digwyddiad hwn ac ers dros ddeng mlynedd ac rydym wedi nodi'r diwrnod drwy ein Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost y DU. Rydym yn gweithio i gofleidio materion lleol a byd-eang, gan gydnabod a chefnogi pryderon dyngarol, dadleoli, mudo, digartrefedd, achub a llawer mwy.

Oherwydd cyfyngiadau Coronafeirws, roedd eleni (Ionawr 2021) yn arbennig o heriol wrth i'r Oriol gau. I nodu'r thema, cafodd Neuadd y Dref y Barri, cartref yr Oriel Gelf Ganolog a thirnodau allweddol eraill yn yr ardal, gan gynnwys y Western Shelter, Ynys y Barri a Swyddfeydd y Dociau, eu goleuo mewn golau porffor, i ddangos undod ac i ymgysylltu â'r digwyddiad cenedlaethol.

Cynhaliwyd Seremoni Goffa i'r cyhoedd, ar-lein yn ystod noson Dydd Mercher 3 Ionawr Roedd hyn yn caniatáu i'r gymuned gymryd rhan yn y diwrnod a chlywed Arweinydd a Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor yn cyflwyno'r 'Datganiad o Ymrwymiad, a baratowyd gan yr Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost. Yn ystod pandemig byd-eang, roedd yn bwysig oedi a myfyrio ar ddigwyddiadau hanesyddol a digwyddiadau sy'n digwydd heddiw, gan gydnabod nad yw hyn ac erchyllterau eraill byth yn cael eu hanghofio a'i bod yn bwysig gweithredu a gwneud newidiadau ar gyfer y dyfodol am genedlaethau.

Agorodd arddangosfa gelfyddydol **Cymdeithas Celfyddydau Menywod Cymru** ym mis Mawrth 2020 i nodi digwyddiad byd-eang Diwrnod Rhyngwladol y Menywod sy'n dathlu cyflawniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol menywod. Mae'r digwyddiad byd-eang hefyd yn anelu at gyflymu cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chysylltu â chydaddoldeb menywod. Agorodd yr arddangosfa am wythnos cyn i'r pandemig taro a chau'r oriel, fel holl Swyddfeydd a chyfleusterau'r Cyngor, gyda chynllun i ailagor ym mis Mawrth 2021. Yn anffodus, gwaharddodd y pandemig parhaus hyn.

Dros flwyddyn yn ddiweddarach, ailagorodd yr un arddangosfa o waith celf a grëwyd gan dros gant o artistiaid benywaidd ym mis Gorffennaf 21. Yn cael ei nodi'n flynyddol, mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn codi ymwybyddiaeth ac yn dathlu cyflawniadau menywod. Mae'r arddangosfa'n galluogi artistiaid newydd sydd ar y gweill a'r gymuned ehangach i ddangos gweithiau celf ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau gan greu sioe wirioneddol fywiog ac amrywiol o amrywiaeth o weithiau celf.

Cafodd **arddangosfeydd digidol ar-lein** eu creu yn ystod y cyfnod clo gan y gwasanaeth datblygu'r celfyddydau. Y cyntaf oedd sioe ddigidol o'r arddangosfa gan

Gymdeithas Celfyddydau Menywod Cymru. Roedd hyn yn galluogi pobl i weld cipolwg o'r sioe a'r hyn a fyddai ar gael i'w weld yn yr oriel ar ôl ei ailagor. Digwyddodd hyn ym mis Gorffennaf 2020.

Mae '**Celfyddydau ar Wahân**' yn arddangosfa celf agored ar-lein i bawb a gefnogwyd gan Wasanaethau Datblygu'r Celfyddydau mewn partneriaeth â Chyfeillion Celf Canolog. Cyflwynwyd cyflwyniadau gan y gymuned leol a thu hwnt gan gynnwys gwaith celf o India a Thwrci. Roedd cymysgedd o gyflwyniadau yn cynnwys cerddoriaeth, cân a'r celfyddydau gweledol, y gweithiau celf yn dangos sut roedd creadigrwydd a'r celfyddydau wedi helpu unigolion a theuluoedd yn sylweddol yn ystod y cyfnod clo. Dilynwyd yr arddangosfa ar-lein gan arddangosfa fyw yn yr Oriel Gelf Ganolog ar ôl i'r oriel ailagor ac fe'i dangoswyd ym mis Awst a Medi 2020. Roedd y sioe fyw yn arddangosfa boblogaidd iawn.

Roedd y drydedd arddangosfa ddigidol mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro. Ar ôl treulio blwyddyn yn gweithio mewn amgylchiadau anodd gartref, roedd y myfyrwr yn gallu arddangos eu sioe diwedd blwyddyn ar-lein yn gyhoeddus. Doedd hi ddim yn bosib dangos eu gwaith yn yr oriel fel arfer, oherwydd y pandemig.

Roedd yr arddangosfeydd digidol yn gyfle i ddangos yr arddangosfeydd i'r cynulleidfaoedd ehangaf yn ystod cyfnod anodd. Roedd yr arddangosfeydd yn cefnogi'r rhai a oedd yn profi cynhwysiant cymdeithasol ac arwahanrwydd gan alluogi i bob oedran a gallu gael eu proffilio a'u cynnwys pan oedd y gymuned mor ar wahân ac yn wannach.

Ar ôl i'r oriel ailagor ac rydym wedi gallu dangos arddangosfeydd byw rydym wedi dangos 'arddangosfa Haf o Hwyl'. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, roedd gweithdai'r haf yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai dan arweiniad artistiaid a ddangoswyd yn yr oriel. Dangosodd yr arddangosfa hon waith rhagorol a grëwyd mewn gweithdai dan arweiniad artistiaid llawrydd, ynghyd â gweithiau a gyflwynwyd gan y bobl ifanc yr oeddent wedi'u creu gartref. Roedd y gweithdai'n galluogi pobl ifanc o bob cefndir i gyfarfod rhyngweithio, gwneud ffrindiau newydd a gweld ffrindiau presennol, wrth ddysgu sgiliau newydd a gweld eu gwaith yn cael ei ddangos mewn lleoliad proffesiynol.

Cyllid Adfer Diwylliannol i Weithwyr Llawrydd - Gan weithio gyda Chaerdydd Creadigol

a Busnes Cymru a gwasanaethau Celfyddydau a Datblygu Economaidd a Diwylliannol awdurdodau lleol yng Nghymru, neilltuodd Llywodraeth Cymru £63 miliwn ar gyfer Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru. Darparodd y cyllid gymorth hanfodol i gynnal y sector celfyddydau a chreadigol, gyda'r nod o alluogi sefydliadau ac unigolion creadigol diwylliannol i ffynnu a chael cymorth yn ystod y pandemig. Roedd yn golygu bod pob gweithiwr llawrydd wedi derbyn £2,500 i ddechrau ac yna swm cyfartal ychwanegol gyda rownd derfynol o ddyraniadau unigol ar gyfer y rhai mwyaf anghenus, i gefnogi ymarferwyr y celfyddydau drwy'r cyfnod estynedig hwn o weithgarwch llai.

Yn ystod y cyfnod clo a'r pandemig byd-eang, nododd Llywodraeth Cymru fod y sector celfyddydau creadigol a diwylliannol llawrydd yn gwneud cyfraniad pwysig i economi a bywyd diwylliannol Cymru. Nodwyd hefyd y gall gwybodaeth broffesiynol, profiad, brwdfrydedd a gweledigaeth broffesiynol y sectorau helpu i adfer canol yr argyfwng hwn. Dyma'r tro cyntaf i'r celfyddydau gael eu cydnabod yr un mor gyfrannwyr sylweddol i economi creadigol a diwylliannol Cymru.

Collodd llawer o Weithwyr Llawrydd eu swyddi mewn theatrau cerddorfeydd, teledu, ffilm a rolau creadigol eraill, gyda'r pandemig. Mae rhai wedi cael eu cefnogi gan y gronfa ac wedi gallu parhau â'u gwaith creadigol yn ystod y pandemig. Defnyddiodd llawer yr arian i'w helpu i addasu a chefnogi eu harferion e.e. gweithwyr proffesiynol ym maes y celfyddydau sy'n cyflwyno dosbarthiadau drwy addasu eu sgiliau i gofnodi a chyflwyno eu hymarfer creadigol ar-lein.

Daeth y broses hefyd ag Addewid Gweithwyr Llawrydd gan Lywodraeth Cymru at ei gilydd. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol a gweithwyr llawrydd i gysylltu am gyfleoedd yn y dyfodol gan ddod â chreadigrwydd a dychymyg i bob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae'r Addewid Gweithwyr Llawrydd yn ailddatgan wrth ddatblygu cynlluniau a dyheadau adfer fod gan Gymru ymrwymiad i gynnwys y gymuned gelfyddydol llawrydd, y cyntaf i'r DU.

Er mwyn gallu darparu'r cyllid hwn ar ran Llywodraeth Cymru, gweithiodd Swyddog Datblygu Celfyddydau Cyngor Bro Morgannwg ynghyd â'r swyddogion Datblygu Economaidd a Chymunedau Gwledig Creadigol ar draws adrannau i alluogi'r cyfle ariannu hwn i gael ei weithredu. Cynhaliwyd y broses dros nifer o fisoedd a rhoddwyd camau ariannu gwahanol ar waith. Derbyniodd pob ymgeisydd ffigur cyfartal o leiaf £5000. Cyfanswm nifer y gweithwyr llawrydd a gefnogwyd ym Mro Morgannwg oedd:

- Grant Adfer Diwylliannol Cylch 1 (roedd hyn yn cynnwys Cam 1 ,2 a 3) - talwyd cyfanswm o £577,500 o grantiau
- Talwyd Grant Atodol i ymgeiswyr cymwys a dderbyniodd y Grant Adfer Diwylliannol yng Nghylch 1 – 203 o grantiau a dalwyd, sef cyfanswm o £507,500
- Grant Adfer Diwylliannol Rownd 2 - 40 o grantiau wedi'u talu gwerth cyfanswm o £100,000

Yng Nghymru, cyn COVID 2020, cynhyrchodd y diwydiannau creadigol £2.2biliwn a chyflogodd 56,000 o bobl. Mae cydnabod y sector hwn wedi creu etifeddiaeth i Artistiaid Llawrydd sy'n gweithio'n annibynnol ac yn y diwydiannau creadigol gan gydnabod bod gan artistiaid yn eu hystyr ehangaf le sylweddol mewn cymdeithas tra'n effeithio ar yr economi ehangach, gan roi artist ar yr un lefel ac mewn rhai achosion, o flaen diwydiannau eraill. Mae'r rhaglen wedi creu cronfa ddata gynhwysfawr o artistiaid o bob disgyblaeth gelfyddydol a ymunodd â'r addewid i greu cronfa ddata o ymarferwyr ar gyfer hyn a phob awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n casglu gwybodaeth newydd i nodi'r cymorth, y manteision a'r canlyniadau.

Mae'r celfyddydau bob amser wedi parhau i fod yn gynhwysol ac eleni maent wedi dangos sut y gallant groesawu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a ffactorau eraill. Bydd y celfyddydau bob amser yn parhau i wneud hyn heddiw ac yn y dyfodol.

Gwasanaethau Hamdden

Profodd y Tîm Byw'n Iach a Pherfformiad, fel y rhan fwyaf o adrannau'r Cyngor, flwyddyn wahanol iawn oherwydd pandemig Covid-19 na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Roedd angen i'r gwasanaeth addasu'n gyflym i fyd sy'n newid a sicrhau y gellid cyflawni ei amcanion yn y ffyrdd gorau posibl. Roedd hyn yn arbennig o heriol i rai grwpiau o gleientiaid allweddol gan gynnwys grwpiau a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

Fodd bynnag, lansiwyd llawer o addasiadau a mentrau newydd fel ymateb uniongyrchol i'r amodau heriol.

Un fenter o'r fath oedd y gyfres 'Reggie goes to the Moon', sef cyfres o lyfrau llythrennedd corfforol a gynhyrchwyd gan gyn Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd y Cyngor a'u dosbarthu i ysgolion, sefydliadau ac unigolion lleol. Mae'r gyfres o chwe llyfr yn dangos ffyrdd gwahanol o barhau i fod yn gorfforol egniol ac mae pob archeb yn mynd i'r afael ag anabledd gwahanol ac yn cynnig cyngor sy'n benodol i'r math o anabledd.

Yn ogystal, roedd mynediad a chyfranogiad menywod a merched yn parhau i fod yn darged allweddol yn ystod y cyfnodau clo wrth i bryderon barhau am y bwlch rhwng lefelau gweithgarwch corfforol rhwng y rhywiau. Felly comisiynwyd ymarfer ymgynghori manwl, yn benodol i Fro Morgannwg, i gynnal ymchwil fanwl i'r rhwystrau i gyfranogiad menywod a merched yn ogystal â cheisio nodi pa weithgareddau fyddai'n helpu i leihau'r bwlch cyfranogiad.

Parhaodd rhai mentrau drwy gydol y pandemig gyda chynlluniau chwarae ar gyfer plant ag anableddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, roedd rhai newidiadau i'r gwasanaeth chwarae gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar leoliadau ar draws Bro Morgannwg mewn ymdrech i sicrhau nad oedd anawsterau trafndiaeth a materion eraill yn effeithio ar y gallu i gymryd rhan.

Darparwyd rhywfaint o ddarpariaeth chwaraeon a chwarae gyffredinol hefyd pan oedd y rheolau a ganiateir gyda hyn yn aml yn cael eu targedu at grwpiau penodol sy'n aml yn gysylltiedig ag amcanion cydraddoldeb strategol y Cyngor.

Galwyd hefyd ar y cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff i addasu ei wasanaethau'n gyflym a symud i bresenoldeb ar-lein gyda rhai dosbarthiadau rhyngwyd byw yn arbennig o gyflym. Roedd y dosbarthiadau hyn yn cael eu cefnogi'n dda gan gleientiaid a gyfeiriwyd at y cynllun cyn dechrau'r cyfnod clo.

Roedd hyn yn rhannol gysylltiedig â menter newydd a lansiwyd o ganlyniad i'r pandemig, y 'prosiect 60+'. Er nad yw adborth penodol o'r fenter hon wedi'i gasglu a'i ddadansoddi eto, mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn dda.

Yn olaf, gan nad oedd y Tîm Chwaraeon yn gallu cyflawni eu gwaith arferol mewn ysgolion, lansiwyd rhaglen her ysgol weithredol gyda dull cynhwysol cryf wrth ei wraidd. Roedd hyn yn mynd i'r afael yn benodol â'r problemau gyda thrafnidiaeth a chost gyda'r ddarpariaeth a ddarperir mewn ysgolion ar gyfer y disgyblion hynny a oedd yn bresennol ac yn y cartref.

Gwerthuso Swyddi

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi ar waith. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a delir dan y cytundeb cyfunol Statws Sengl. Mae'n sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog a gradd ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at dâl cyfartal o werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthusiad swydd wedi'u cysylltu â'n system gyflog a graddio. Sefydlwyd system gyflog a graddio ffurfiol ym mis Mawrth 2012 ar ôl cwblhau proses gwerthuso swyddi helaeth.

Mae wedi ein helpu i dalu pobl yn deg ac mewn ffordd gyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar dâl pobl megis y math o swyddi maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a merched yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a merched wedi eu gwneud yn draddodiadol. Gelwir hyn yn arwahanu galwedigaethol. Mae'n aml yn ffactor o ran y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod – sef y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithlu, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2012, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd angen ar bobl i wneud y swydd. Mae llawer o newidiadau fel hyn wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau a meddwl am y ffordd orau o wneud ein gwaith. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw'r system gyflog a graddio'n deg a chyson.

Cynllun y Gweithlu

Mae gennym gynllun gweithlu. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gennym:

- y bobl gywir;
- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan mae heriau ariannol mawr a galw cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn bwriadu sicrhau bod ein gweithlu yn debyg i wneuthuriad y gymuned leol o ran y grwpiau gwarchoddedig. Rydym wrthi'n adolygu cynllun gweithlu'r Cyngor.

Rydym wedi rhoi mewn lle ffordd o gofnodi nodweddion gwarchoddedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Yna gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu, mae gennym strategaeth i edrych ar gynyddu amrywiaeth ein gweithwyr ar draws pob grŵp gwarchoddedig. Fel rhan o'r strategaeth, rydym yn adeiladu perthnasoedd ac yn datblygu chyfleoedd gyda sefydliadau addysgol lleol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymdrechu i gynnig yr ystod lawn o brentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru.

Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog.

Rydym wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- rhyw;
- hil;
- anabledd; ac
- hoedran.

Rydym wedi parhau i ddatblygu systemau newydd. Bydd hyn yn gadael i ni adrodd ar fwy o nodweddion gwarchoddedig yn y dyfodol. Byddwn yn gallu casglu a chofnodi gwybodaeth ar:

- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth rywiol;
- hunaniaeth genedlaethol; • crefydd neu gred; a
- statws priodasol.

Roedden ni eisiau canolbwyntio ar gamau allweddol. I'n helpu ni, defnyddiom ganllawiau gan Lywodraeth

Cymru. Enw'r canllaw yw 'Casglu data am gydraddoldebau - Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau'.

Newidiom y ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth am bobl pan fônt yn ymgeisio am swyddi.

Rydyn ni nawr yn gofyn am nodweddion gwarchoddedig ar y ffurflen. Gallwch weld y ffurflen yn [Atodiad 3](#).

Fe wnaethon ni lunio arolwg staff, Fe wnaethom ddefnyddio hwn i ofyn i staff am eu nodweddion gwarchoddedig.

Fe wnaethon ni wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am y grwpiau gwarchoddedig o fewn ein gweithlu.

I gael mwy o wybodaeth

Ewch i'n gwefan

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy

Newyddion a Diweddariadau - yn syth i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

Social Media

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook. Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni.

- Ebost c1v@valeofglamorgan.gov.uk;
- neu ffoniwch 01446 700111